PET(4) WPI 40
Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru
Ymateb gan Carol Jenkins

Ymgynghoriad Arbennig
Academi Heddwch Cymru a Phwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

> *"Rydym ni'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd ac i edrych pa mor ymarferol fyddai i Gymru gael Sefydliad Heddwch i edrych ar heddwch a hawliau dynol, tebyg i'r sefydliadau a gefnogir gan lywodraethau gwladwriaethau yn Fflandrys, Catalonia a mannau eraill yn Ewrop."*

Ysgrifennaf ar ran Canolfan Morlan yn Aberystwyth i gefnogi'r ddeiseb uchod; nid ydym am ddarparu tystiolaeth lafar.

Canolfan ffydd a diwylliant yw Morlan. Yn ogystal â llogi ei chyfleusterau i amryw grwpiau a mudiadau y mae hefyd yn trefnu ei rhaglen ei hun o ddigwyddiadau ar amrediad eang o themâu – cymdeithasol, gwleidyddol, crefyddol a diwylliannol. Mae llawer o'r digwyddiadau a drefnir gennym yn codi ymwybyddiaeth o faterion heddwch, cyfiawnder a hawliau dynol.

Er enghraifft, ein gobaith yw gwahodd arddangosfa'r Prosiect Maddeuant *(The Forgiveness Project)* yma'r flwyddyn nesaf. Bwriad y Prosiect yw adeiladu dyfodol di-drais drwy rannu straeon nifer o bobl sydd wedi dioddef trais, trallod ac anghyfiawnder yn y gorffennol ac sy'n dysgu maddau a dygymod. Y nod yw annog pobl sy'n ymweld â'r arddangosfa i geisio ystyried gwerth maddau yn hytrach na dial, yn wleidyddol ac yn eu bywydau pob dydd.

Un peth bach yw hwn dros gyfnod byr o amser.

Byddai cael Academi Heddwch yng Nghymru yn rhywbeth hirdymor fyddai'n gallu cyflawni cymaint mwy. Byddai'r Academi, ar sail ymchwil eang a barn deg, yn gallu cynnig arweiniad i'r Cynulliad Cenedlaethol a sefydliadau eraill yng Nghymru ar faterion cyfiawnder, heddwch a hawliau dynol. Byddai'n gallu cyfrannu at ddarpariaeth addysgol ym meysydd astudiaethau heddwch a chynnig cyngor ac arweiniad mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Byddai'n creu diwylliant o heddwch, yn dangos fod yna ffyrdd eraill o ddatrys anghydfod ac yn codi ymwybyddiaeth o faterion cyfiawnder a hawliau dynol.

Ni theimlwn fod gennym yr arbenigedd i fanylu ar gyfansoddiad sefydliad o'r fath, gwell gadael hynny i'r rhai sydd ag arbenigedd yn y maes, ond teimlwn y byddai unrhyw sefydliad sy'n hyrwyddo diwylliant o heddwch, nid diwylliant o ryfel, ac sy'n chwifio baner rhyddid, cyfiawnder a hawliau dynol yn ddatblygiad positif i fod yn falch ohono. Byddai'n codi statws Cymru, yn dangos ein bod yn barod i fentro a chamu ymlaen â hyder.

Yn sicr felly, y mae Morlan yn cefnogi ac yn croesawu unrhyw gamau i sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru, a theimlwn ei fod yn bwysig iawn i gael sefydliad o'r fath yma.

Yn gywir

Carol Jenkins
Rheolwr / Manager